Ysgol y Dderwen

Polisi Trefnu'r Cwricwlwm

YSGOL Y DDERWEN

POLISI TREFNU'R CWRICWLWM

Mae'r cwricwlwm a ddarperir yn Ysgol y Dderwen wedi ei ddatblygu o fewn canllawiau cenedlaethol a chanllawiau Adran Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n adlewyrchu cymeriad, ethos ac amgylchiadau'r ysgol hon.

Cyflwyniad

Y cwricwlwm yw'r holl weithgareddau a drefnir er mwyn hyrwyddo dysgu, tyfiant a datblygiad personol. Mae'n cynnwys gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol yn ogystal â'r holl weithgareddau allgyrsiol a ddarperir gan yr ysgol er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Ein nod yw cynorthwyo'r disgyblion i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth ac i dyfu a datblygu i fod yn aelodau cyfrifol o'n cymdeithas sydd yn medru gweithio a chyd-weithio gydag eraill ac i gyrraedd eu llawn potensial.

Amcanion

Amcanion ein cwricwlwm yw:

- I alluogi'r holl ddisgyblion i ddysgu ac i ddatblygu eu sgiliau hyd eithaf eu gallu.
- I hyrwyddo agwedd bositif tuag at ddysgu fel bod y disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol, yn mwynhau dysgu ac yn caffael sylfaen gadarn ar gyfer dysgu gydol oes.
- I addysgu sgiliau sylfaenol llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth.
- I alluogi'r disgyblion i fod yn greadigol ac i ddatblygu eu sgiliau meddwl eu hunain.
- I addysgu'r disgyblion am y byd gan gynnwys sut mae'r amgylchedd a'r gymdeithas yn newid dros amser.
- I alluogi'r disgyblion i ddysgu am, a gwerthfawrogi hanes a diwylliant ein cenedl.
- I alluogi'r disgyblion i fod yn aelodau cyfrifol o'r gymdeithas.
- I gyflawni gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.
- I gynorthwyo'r disgyblion i fod yn gynyddol ymwybodol o'u datblygiad ysbrydol ac i wybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg.
- I gynorthwyo'r disgyblion i ddeall ystyr tegwch a phwysigrwydd dweud y gwir.
- I ddysgu pwysigrwydd hunan barch ac i hybu hunan werth y disgyblion.
- I gydfyw a chydweithio yn effeithiol gydag eraill.

Trefnu a Chynllunio'r Cwricwlwm

Rydym yn cynllunio'r cwricwlwm a ddarperir fesul tri cham:

- **Cynllunio Tymor Hir**

  Cylch themâu sy'n dangos pa themâu ac is-themau sydd i'w hastudio yn dymhorol.

  Mapiau tymor hir pynciol yn dangos pa agweddau o bynciau sydd i'w astudio yn dymhorol.

  Gan fod ein cynlluniau tymor hir yn gweithio'n llwyddiannus cyn dyfodiad cwricwlwm 2008, parheir i'w defnyddio fel sail tymor hir a fydd yn rhoi cyd-destun ac ehangder i'r dysgu.

  Nodir y sgiliau allweddol sy'n hyrwyddo'r dysgu'n dymhorol ar daflen bwrpasol a fydd yn sail i'w mapio dros gyfnod o ddwy flynedd maes o law.

- **Cynllunio Tymor Canol**

  Cynlluniau sydd yn nodi manylion unedau neu agweddau o gynlluniau gwaith fesul cyfnod penodol – tymor, hanner tymor, mis. Mae'r prif bwyslais ar gynllunio ar gyfer dysgu.

- **Cynllunio Tymor Byr**

  Cynlluniau sydd yn nodi agweddau'r addysgu a dysgu gyda ffocws fesul cyfnod byrrach – gwersi unigol, dyddiol, wythnosol. Mae llwyddiant y cynllunio tymor byr yn dibynnu ar gryfder y cynllunio blaenorol.

  Wrth gynllunio'n wythnosol, cyd-weithia'r athrawon sy'n addysgu o fewn yr un uned er mwyn sicrhau cysondeb a pharhad yn yr addysg, gweithgareddau a phrofiadau a ddarperir i ddisgyblion o'r un oed.

  Rhoddir pwyslais ar sgiliau a strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn y cynlluniau tymor byr er mwyn sicrhau mai rheini yn hytrach na gwybodaeth bynciol sy'n arwain yr addysgu. Mae hyn yn gynyddol bwysig er mwyn cydymffurfio a chwricwlwm 2008.

Pwysleisir hyblygrwydd wrth gynllunio. Weithiau cynllunnir diwrnodau neu gyfnodau arbennig e.e. Wythnos Ewropeaidd neu Ddiwrnod Creadigol er mwyn rhoi profiadau penodol i'r disgyblion.

Wrth gynllunio dylid osgoi ceisio unrhyw ailadrodd diangen.

Addysgir mathemateg, addysg gorfforol ac agweddau o iaith y tu allan i'r cyfyngiadau'r thema, ond sicrheir bod agweddau o lythrennedd, rhifedd a TGCh yn greiddiol ar draws y cwricwlwm.

Penderfynwyd ar y dull yma o gynllunio er mwyn:

- sicrhau dilyniant a chysondeb o'r Cyfnod Sylfaen hyn at flwyddyn 6
- rhoi cyfle i athrawon rannu arbenigedd
- darparu ehangder a chydbwysedd dros gyfnod y plentyn yn yr ysgol a sicrhau amrywiaeth o ddulliau addysgu
- diwallu anghenion unigol y dosbarth/cyfnod allweddol/yr ysgol ac ateb gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol, gofynion statudol eraill ac elfennau anstatudol
- rhoi mynediad i bob disgybl
- datblygu a chymhwyso'r sgiliau trwy holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
- paratoi'r disgyblion ar gyfer bywyd fel oedolion.

Cyflwynir tasgau sydd yn:

berthnasol – yn cynnig profiadau sydd yn adlewyrchu byd cyfoes y plentyn;

gytbwys – i sicrhau datblygiad eang ym mhob agwedd yn y tymor hir; ac yn

wahaniaethol – er mwyn darparu ar gyfer anghenion penodol.

Cyfrwng dysgu gwaith trawsgwricwlaidd

Cymraeg yw cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn uned y Blynyddoedd Cynnar a Blwyddyn 1 a 2. Yn nosbarthiadau CA2, addysgir y rhan fwyaf o'r gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg, ond addysgir yn achlysurol trwy gyfrwng y Saesneg er mwyn hyrwyddo sgiliau cyfathrebu a thrawsieithu'n drawsgwricwlaidd. Ym mlynyddoedd 5 a 6, hyrwyddir sgiliau llythrennedd deuol.

Anghenion Addysgol Arbennig

Mae'r cwricwlwm a gynigir yn yr ysgol hon wedi ei drefnu er mwyn rhoi mynediad i bob disgybl sydd yn mynychu'r ysgol.

Os oes gan ddisgybl angen/anghenion arbennig, gwnawn ein gorau i gwrdd â'r anghenion hynny. Rydym yn cydymffurfio â'r gofynion yn y **COD YMARFER ADDYSG ARBENNIG** wrth ddarparu ar gyfer y sawl sydd ag anghenion

arbennig, bydd yr athro/athrawes ddosbarth yn cydweithio a'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am anghenion addysgol arbennig.

Darperir Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) i bob disgybl sydd ar y gofrestr AAA. Mae'r rhain yn nodi natur yr angen a'r camau i'w cymryd er mwyn ceisio rhoi cymorth i'r disgyblion.

Sgiliau

Mae'r Fframwaith Sgiliau yn nodi **meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif** fel sgiliau i'w datblygu ar draws y cwricwlwm.

Nodir neu arogleuir y sgiliau yma yn ein cynllunio tymor byr. Mae pob pwnc yn cyfrannu tuag at ddatblygiad plentyn yn y sgiliau yma. Credwn fod angen i bob plentyn wneud cynnydd ym mhob un o'r sgiliau er mwyn cyflawni ei lawn botensial.

Rôl yr arweinydd pwnc / maes / agwedd

Rôl y cydgysylltydd pwnc / maes / agwedd yw:

- roi arweiniad strategol ar gyfer y pwnc
- cynnig cymorth ac arweiniad i gydweithwyr ar faterion yn ymwneud a'r pwnc
- monitro datblygiad disgyblion
- darparu adnoddau addas ar gyfer y pwnc.

(Gweler polisi ar Rôl yr Arweinydd Pwnc / Maes / Agwedd)

Monitro

Caiff trefniadau cwricwlwm a chynllunio'r ysgol eu harfarnu yn unol â threfniadau hunan arfarnu'r ysgol. Mae'r cydgysylltydd pwnc / maes / agwedd yn monitro sut yr addysgir y pwnc trwy'r ysgol. Byddant yn talu sylw i'r cynllunio ac yn sicrhau y defnyddir strategaethau addysgu addas.

Mae gan lywodraethwyr yr ysgol gyfrifoldeb am bynciau / meysydd / agweddau arbennig. Byddant yn ymweld â'r ysgol ac yn trafod materion yn ymwneud a'r pwnc gyda'r cydgysylltydd.

Adolygu'r polisi

Adolygir y polisi hwn a phob polisi a chynllun cwricwlaidd yn ôl yr angen ac i ateb gofynion statudol.